Ar 28 Hydref 2019, cynhaliwyd *Strategaethau Grym Meddal - Sut ddylai Cymru ei chyflwyno ei hun ar lwyfan y byd?* digwyddiad gyntaf y gyfres *Cymru a'r Byd* ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Gan gyd-fynd â datblygu Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, nod y gyfres hon o ddigwyddiadau yw ehangu'r drafodaeth a dwysau ein dealltwriaeth o asedau "grym meddal" Cymru.

Bu'r digwyddiad cyntaf yn trafod safbwyntiau ar bŵer meddal, ac yn ceisio cynnig awgrymiadau ymarferol i ddatblygu proffil byd-eang Cymru.

Roedd siaradwyr yn cynnwys: Eluned Morgan, AM Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol; Paul Brummell, Pennaeth Grym Meddal a Materion Allanol, Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad; Yr Athro Karen Smith, Athro mewn Cydberthynas y Gwledydd, Ysgol Economeg Llundain. Imants Liegis, Llysgennad Latfia i Ffrainc; Rob Humphreys, Cadeirydd British Council Wales; Peter Florence, Gŵyl y Gelli; Susie Ventris-Field, Prif Weithredwr Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru; Owen Hathway, Chwaraeon Cymru; a Syr Emyr Jones Parry Lywydd y Gymdeithas.

Y prif amcanion oedd diffinio 'grym meddal', ystyried asedau grym meddal Cymru ac adfyfyrio ar yr hyn y gall y sectorau diwylliannol, addysg, chwaraeon ac elusennol ei gyfrannu i gryfhau enw da Cymru.

Diffinio grym meddal, Deall ei Heriau a Phennu ei Bwysigrwydd i Gymru

Yn fras, grym meddal yw gallu gwlad i ddenu, perswadio a chymell pobl eraill er mwyn cael yr hyn mae'n ei ddymuno ar y llwyfan byd-eang. Mae hyn yn cyferbynnu â defnyddio dulliau economaidd, milwrol neu fathau eraill o gymhelliad. Mae'n fodd i wladwriaethau ddylanwadu ar eraill, harneisio a defnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n aml yn anniriaethol fel diwylliant deniadol, bwyd, chwaraeon, gwerthoedd democrataidd, iaith, hanes a pholisïau er budd y genedl mewn rhyw ffordd.

Diffinnir grym meddal gan yr Athro Joe Nye fel "pŵer atyniad", ac mae'n offeryn pwerus i genedl fach fel Cymru. Mewn neges fideo ar gyfer y digwyddiad, mae'r Athro Nye yn ein hatgoffa bod cwymp Wal Berlin bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl yn enghraifft o effaith hanesyddol grym meddal, oherwydd fe'i chwalwyd gan y bobl hynny y tu ôl i'r Llen Haearn yr oedd eu meddyliau wedi'u newid gan 'bŵer meddal' y gorllewin:

> *"Mae grym meddal gwlad yn dibynnu nid yn unig ar weithredoedd y llywodraeth, ond ar atyniad ei chymdeithas sifil […] mae gan unigolion hefyd bŵer meddal. Mae llawer o'n cysylltiadau'n cynnwys perswadio pobl eraill."*

Gan fod grym meddal yn seiliedig yn bennaf ar ganfyddiadau gwladwriaethau eraill, sefydliadau rhyngwladol ac actorion allanol nad ydynt yn perthyn i'r wladwriaeth, mae'n anodd i lywodraethau ei reoli. Yn aml, mae enw da cadarnhaol gwladwriaeth yn rhyngwladol yn cymryd amser hir i'w ddatblygu ond gellir ei golli'n gyflym iawn os canfyddir drwy ddigwyddiadau, hanes neu'r cyfryngau cymdeithasol ei fod yn anghyson neu'n anwir. I fod yn gynhwysfawr, mae'n dibynnu nid yn unig ar y llywodraeth ond hefyd ar actorion y wlad nad ydynt yn perthyn i'r wladwriaeth: elusennau, mudiadau, sefydliadau, yn ogystal â chymdeithas sifil.

Serch hynny, pan gaiff ei harneisio a'i gyflwyno'n effeithiol, gall grym meddal fod yn fuddiol iawn. Nid yw Cymru'n wladwriaeth annibynnol ac mae pŵer caled a galluoedd polisi tramor cysylltiedig yn gyfrifoldeb llywodraeth Prydain. Byddai strategaeth grym meddal gydlynol ac effeithiol felly'n cynnig cyfle i Gymru ymarfer dylanwad er budd Cymru. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig pe bai galluoedd Grym meddal y DU yn gwanhau ar ôl Brexit.

Beth yw Asedau grym meddal Posibl Cymru?
Trafodwyd llu o asedau Grym meddal posibl Cymru. Roedd y prif gategorïau'n cynnwys:

a) Etifeddiaeth a diwylliant
- Gallu chwaraeon
- Rhagoriaeth artistig
- Barddoniaeth, llenyddiaeth, canu a dawnsio – 'cenedl o feirdd a chantorion'
- 'Cynhwysiant', i'w weld drwy Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deiseb Cymru Dros Heddwch a Chynghrair y Cenhedloedd
- Bwyd ansawdd uchel

b) Dwyieithrwydd a'r Gymraeg

c) Gwerthoedd, Delfrydau a Chyfrifoldeb Byd-eang
- Cynaladwyedd amgylcheddol. Mae Cymru wedi plannu 10 miliwn o goed yn Uganda ac wedi trosi Deddf Cynaladwyedd y CU yn gyfraith.
- Datblygu rhyngwladol – cyfnewid academaidd a gwell seilwaith addysgol yn Vietnam, rhaglen Cymru ac Affrica

d) Ymchwil ac arloesi
- Cymru yw'r mwyaf effeithiol yn y DU am droi cyllid yn ymchwil cydweithredol uchel ei safon; roedd 70 o gyhoeddiadau'n cynnwys cydawduron o'r tu allan i Gymru
- Seiber ddiogelwch

Perchnogaeth, Cyfrifoldeb a Rolau i'w Chwarae
Dylai strategaeth Grym meddal Cymru gael ei pherchnogi'n eang. Mae cyrchu a dyrannu cyllid yn briodol yn golygu bod y prif gyfrifoldebau yn dal ar ysgwyddau swyddogion yn Llundain a Llywodraeth Cymru. Serch hynny, er mwyn gwreiddio a chyflwyno'r strategaeth mewn modd cynaliadwy a chyfrifol mae'n bwysig cydnabod y cyfrifoldeb a'r rolau sydd gan y lliaws o sefydliadau academaidd ac economaidd, cyrff anllywodraethol, elusennau ac unigolion yng Nghymru ac sy'n deillio o Gymru. Yma, rhoddwyd pwyslais penodol ar y celfyddydau ac effaith bosibl y BBC a'r Cyngor Prydeinig.

Pwyntiau a allai fod yn Ddadleuol
Wrth greu strategaeth Grym meddal Cymru, mae'n bwysig osgoi gwneud honiadau gor-gyffredinol, propaganda neu fyrhoedlog am lwyddiannau neu arweinyddiaeth, a allai brofi'n niweidiol i'r canfyddiad rhyngwladol tymor hir o Gymru. Er enghraifft, gallai termau eang fel 'tegwch', 'cydraddoldeb' neu hyd yn oed 'cynaladwyedd' gael eu gweld yn ddadleuol neu'n anghyson.

Mae angen i Lywodraeth Cymru annog a chynghori, gan wrthsefyll y demtasiwn i bennu popeth ei hun. Rhaid iddi sefydlu amlinelliad eang ond clir er mwyn galluogi a hwyluso'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud, yr hyn sydd angen ei wneud o hyd a ble mae angen cymorth ar frys. I alluogi strategaeth Grym meddal gynaliadwy, rhaid iddi hefyd dathlu a diogelu'r un naratif o fewn Cymru.

Casgliad: I Beth?
Yn o'r prif heriau i Lywodraeth Cymru yw pennu sut fydd Grym meddal Cymru'n cael ei ddefnyddio. Mewn geiriau eraill, beth yw buddiannau Cymru? Mwy o dwristiaeth? Denu mwy o fusnes? Hyrwyddo cydweithio? Cael mwy o ddylanwad mewn materion rhyngwladol? Annog poblogaeth â meddwl agored sy'n ymwybodol yn rhyngwladol?

Bydd sefydlu nod neu nodau clir yn caniatáu gwell eglurder rhwng y llywodraeth ac actorion nad ydynt yn rhan o'r wladwriaeth o ran yr hyn sydd angen ei wneud, amserlenni bras, a pha adnoddau a chyllid sydd eu hangen o hyd i gyflawni'r amcanion hyn.